

Rhifyn 10

Adran Daearyddiaeth
a Gwyddorau Daear

ADGD ar y Brig!



Llun: Vince Jones

Ym mis Mai 2014, cyhoeddwyd enillwyr Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Dyma'r trydydd tro i'r gwobrau blynyddol gael eu cynnal... ac roedd Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ar y brig!

Canlyniadau ADGD oedd:

Addysgu Rhagorol y Flwyddyn

ENILLYDD – Dr Tom Holt
CANMOLIAETH UCHEL – Dr Carina Fearnley

Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn:

CANMOLIAETH UCHEL – Greg Thomas

Cynrychiolydd Myfyriwr y Flwyddyn:

CANMOLIAETH UCHEL – Will Atkinson (*3edd fl. BSc Daearyddiaeth*)

Tiwtor Personol y Flwyddyn:

ENILLYDD – Dr Kevin Grove
CANMOLIAETH UCHEL – Dr Andrew Thomas

Staff Cynorthwyol y Flwyddyn:

CANMOLIAETH UCHEL – Andrew Brown a Marguerite Hughes

Adran y Flwyddyn:

Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear



Meddai Grace Burton, Swyddog Addysg, Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth: "Mae'r gwobrau yn boblogaidd tu hwnt, ac roedd rhai enwebiadau gan y myfyrwyr yn hynod deimladwy, sy'n dangos yr effaith enfawr mae staff yn ei gael ar brofiad y myfyrwyr."

Ychwanegodd yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor dros Brofiad Myfyrwyr y Brifysgol: "Hoffwn longyfarch pob un o'r enillwyr a'r enwebeion yng Ngwobrau Dysgu Myfyrwyr dan Arweiniad eleni. Mae'n bleser mawr gweld ein myfyrwyr yn pleidleisio dros bwy maen nhw'n teirno yw'r sêr pan ddaw i ddysgu ac ysbrydoli."

**Diolch i'n myfyrwyr
am eu henwebiadau!**



Llun: Vince Jones


NEWYDDION



Tud 4: Pencampwyr Gyrfaedd Daearyddiaeth



Tud 7: Concro Rhewlif Noir



Tud 21: Chwyddwydr ar Ymchwil

Cynnwys

Tualen flaen - ADGD ar y Brig!

Profiadau Israddedig

Tud 3	Alldaith 'Operation Wallacea' – Sam Johnson
Tud 4	Pencampwyr Gyrfaoedd Daearyddiaeth
Tud 5	Cyfathrebu Daearyddiaeth
Tud 6	Bodio ym Montenegro – Magdalena Chmura

Traethodau Estynedig

Tud 7	Concro Rhewlif Noir– Nathaniel Baurley
Tud 8 - 9	Gwobrau W J Edwards - Laura Truelove, Sarah Hughes, Sam Adamson

Gwobrau a Chymdeithasau

Tud 10 - 11	Cystadleuaeth Ffotograff a Ffilm 2014
Tud 12 - 14	Gwobrau Teithio
Tud 15	Helo o GeogSoc!

Newyddion Ôl-raddedig

Tud 16	Bywgraffiadau Graddedigion - Sara Jones, Heather Griffiths
Tud 17	Archwilio Ghana – Amber Tarry
Tud 18	Dynmeg a Rheolaeth Systemau Afonol - MSc NEWYDD ar gyfer 2015!
Tud 19	Llwyddiannau mewn Cynadleddau

Newyddion Adrannol

Tud 20	Gall y Gorffennol Ateb ein Dyfodol...
Tud 21	Chwyddwydr ar Ymchwil
Tud 22	Diwrnod ym mywyd... Dr Tom Holt
Tud 23	Cyhoeddiadau a Staff Newydd

Golygydd gan Cerys Jones a Sarah Jones



Mae'n bleser i gyflwyno newyddlen 2015 Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Mae'r cylchlythyr yn rhoi i chi gyflwyniad i'r addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf a wnaed gan y staff yn yr Adran, ac yn dangos rhai o'r profiadau amrywiol a chyffrous y mae ein myfyrwyr yn eu cael mewn darlithfeydd, dosbarthiadau ymarferol ac allan yn y maes.

Yr ydym ni, fel Adran, yn dathlu ein canmlwyddiant yn 2017 ac mae hyn yn ei gwneud yn adeg arbennig o gyffrous i fod yn ymuno â ni. Rydym yn falch iawn o'r ffaith mai ni oedd un o'r adrannau Daearyddiaeth gyntaf i gael ei ffurfio yn y Deyrnas Gyfunol ac, yn wir, ledled y byd. Rydym wedi cynllunio cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu cyfraniadau sylweddol yr ydym wedi'u gwneud i ddisgyblaethau Daearyddiaeth, Gwyddor Daear Amgylcheddol a Gwyddor yr Amgylchedd dros y blynyddoedd. Mae'r canmlwyddiant hefyd yn dyst i fuddsoddiad sylweddol ym manau addysgu'r adran, gan gynnwys ein darlithoedd a labordai, yn ogystal â'n manau cymunedol, a thrwy ysgoloriaethau.

Daw cyffro pellach o'r ymdrechion parhaus sy'n cael eu gwneud gan ein hymchwilywyr i ddeall a datrys yr heriau allweddol sy'n wynebu dynoliaeth a'r byd naturiol ill dau. Mae nifer o brosiectau ymchwil newydd gan ein staff eleni, sy'n ymchwilio i, ymysg pethau eraill: effeithiau newid yn yr hinsawdd ar rewlifoedd a haenau iâ; dealltwriaeth pobl o ddigwyddiadau tywydd eithafol; effeithiau globaleiddio ar gymunedau ledled y byd; ffyrdd o leihau effaith llygredd ar ecosystemau a chynefinoedd.

Cydnabuwyd safon ymchwil staff gan asesiad ansawdd ymchwily Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2014. Cadwodd ADGD ei choron fel yr adran Ddaearyddiaeth gorau yng Nghymru ac mae yn y 10 uchaf yn y DG o ran pŵer ymchwil. Perfformiodd ADGD hefyd yn arbennig o dda mewn perthynas ag effaith gyffredinol ei hymchwil, gyda 100 % yn cael ei nodi fel ymchwil sydd yn cael effaith rhagorol neu sylweddol iawn o ran cyrhaeddiad ac arwyddocâd.

Rhan o arwyddocâd yr ymchwil hwn, wrth gwrs, yw ei fod yn helpu i lywio'r modiwlau yr ydym yn eu dysgu fel rhan o'n cyrsiau amrywiol. Mae modiwlau blwyddyn gyntaf, megis 'Climate Change', 'The Atmosphere and the Water Cycle', 'Global Environmental Issues', a 'Power, Place and Development', yn ceisio deall rhai o'r themâu allweddol sy'n cael eu hastudio yn rhai o'n prosiectau ymchwil mwyaf blaenllaw. Canolbwyntia modiwlau mwy arbenigol yn yr ail a'r drydedd flwyddyn ar faterion fel 'Sustainability and Resilience', 'Geohazards' a 'Governing Uncertain Futures'. Ym mhob un o'r modiwlau hyn, mae ein staff addysgu yn rhoi dadansoddiad arbenigol o'r heriau sy'n wynebu'r byd i'n myfyrwyr, yn ogystal ag arweiniad ar atebion ymarferol posibl i'r heriau hyn.

Mae rhai o'r datblygiadau allweddol yn ein portffolio addysgu eleni yn cynnwys ailstrwythuro ein gradd israddedig mewn Gwyddor yr Amgylchedd, lansio gradd ryngddisgyblaethol mewn Gwyddor Gymdeithasol (gan dynnu ar fodiwlau o Ddaearyddiaeth Ddynol, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Hanes a Seicoleg) a lansio cynllun gradd Meistr sy'n canolbwyntio ar Dynmeg Basnau Afonydd. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu ein myfyrwyr â chydwyseidd o wybodaeth academiaidd, sgiliau ymarferol a llwybr clir i amrywiaeth o yrfaedd diddorol, gwerth chweil ac sy'n talu'n dda.

Rho'r newyddlen hon i chi flas o'r hyn sydd gan Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear i'w cynnig. Gallwch gael gafael ar ragor o wybodaeth drwy gysylltu ag un o'n tîm recriwtio, drwy ymweld â gwefan yr Adran neu drwy ymweld â'r Adran ar Ddiwrnod Agored. Byddwn yn falch iawn i'ch croesawu chi ac i ddangos beth sydd gennym i'w gynnig.

Yr Athro Rhys Jones, Pennaeth Adran

Profiadau Israddedigion

Mae Adran Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear yn Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd gwych i fyfyrwyr i archwilio ein Byd drwy astudio dramor, treulio blwyddyn mewn cyflogaeth, gan ennill profiad gwaith haf, cynnal ymchwil gyffrous, neu fynd ar antur!

Alldaith 'Operation Wallacea'

Sam Johnson,

2^{il} flwyddyn, BSc Daeryddiaeth

Dros yr haf treuliais bedair wythnos yn Ne Affrica gyda 'Operation Wallacea' ar fy ail daith gyda'r cwmni, diolch i Wobr Teithio ADGD. Ar gyfer y 3 wythnos gyntaf pwrpas y daith oedd bod yn gynorthwydd ymchwil i gasglu data gwerthfawr i'r parc gêm er mwyn helpu rheoli effeithiau eliffantod ar yr ecosystem. Yn benodol, golyga fy ngwaith cynnal cyfrif adar bob bore a oedd wedi cael eu dewis ar hap drwy gydol y parc, ac yna asesiad cynefin ym mhob un o'r parthau hyn. Canolbwyntiodd yr asesiad cynefin ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys y math o rywogaethau coed, cyfaint glaswellt ac effaith eliffantod. Yn dilyn hyn, cawsom gyfres o ddarlithoedd a thrafodaethau ar y problemau o ran cadwraeth yn Ne Affrica. Un o'r syniadau mwyaf diddorol oedd creu coridor natur i ganiatáu anifeiliaid i symud yn rhydd rhwng y parciau sydd wedi'u gwasgaru ar draws y rhanbarth Kwa-Zulu Natal. Yn yr wythnos olaf, gwnes gymryd rhan mewn cyfres o deithiau snorcelio i weld megaffawna ym Mae Sodwana a chwblhau cwrs ecoleg rîff oedd yn canolbwyntio ar faterion sy'n wynebu Parc Gwlypdiroedd iSimangaliso a'r broblem enfawr o orbysgota ledled y byd.

Yn academiaidd, yr wyf wedi cael fy nghyflwyno i ystod o dechnegau a dysgu sut i gynnal ymchwil mewn amgylchedd heriol. Roedd yn ddiddorol i ddarganfod pa mor allweddol yw rhanbarth Kwa-Zulu Natal i ddyfodol cadwraeth yn Ne Affrica a pha mor anodd yw hi i ystyried anghenion pobl heb effeithio yn ddifrifol ar yr ecosystemau gwyllt a geir yno. Ar ben hynny, mae'r cwrs ecoleg rîff wedi caniatáu i mi i adeiladu gwybodaeth benodol i'r ardal honno y gallwn i ychwanegu a chymharu ag ecoleg rîffau Indo-Pasifig yr wyf wedi astudio o'r blaen.

Yn bersonol, yr wyf wedi herio fy hun mewn sawl ffordd, wedi goresgyn ofnau a rhoi cynnig ar bethau newydd. Roedd bod yng nghanol buches o eliffantod, cael fy nal mewn magl, cael chwistrelliad mewn ysbyty Affricanaidd a nofio gyda Siarcod Morfil a dolffiniaid yn ddim ond rhai o'r uchafbwyntiau ac atgofion sydd gen i am y profiad cyffrous hwn.



Pencampwyr Gyrfaoedd Daeryddiaeth

Cystadleuaeth Ail-fyw'r Profiad

Lansiwyd 'Cystadleuaeth Ail-fyw'r Profiad' gan Athrofa Daeryddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg yn 2014. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bob myfyriwr israddedig o'r pedair adran ac roedd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno adroddiad yn seiliedig ar gyfnod o brofiad gwaith. Yn ogystal, rhoddodd y myfyrwyr gwnaeth hi i'r rownd derfynol gyflwyniad ar eu profiadau o flaen eu cyd-fyfyrwyr, staff a phanel o feirniaid o yrfaeod ac arbenigwyr cyflogadwyedd. Roedd yr ymateb gan fyfyrwyr ADGD y llynedd yn wych; yn wir daeth yr enillydd o'r adran hon!

Llongyfarchiadau i Enillydd Ail-fyw'r Profiad 2014

Daniela Pietras, 3edd flwyddyn BSc Daeryddiaeth Ffsegl Profiad gwaith: Derbynydd mewn maes gwersylla yn Ffrainc

Adeg Pasg enillais y gystadleuaeth 'Ail-fyw'r Profiad' trwy ysgrifennu adroddiad 1,000 gair am fy mhrofiad gwaith ac, ar ôl cyrraedd y rhestr fer, gan roi cyflwyniad 10 munud. Cyflwynais fy mhrofiad gwaith fel derbynydd a wneuthum yr haf diwethaf mewn maes gwersylla yn Ffrainc. Yn ystod y 4 mis, fe wnes i groesawi a ffarwelio â chwsmeriaid, ateb y post a galwadau ffôn, gweithio fel gweinyddes yn y bar, trefnu amserlenni staff a chyfrir' tiliau. Galluogodd gweithio dramor i mi wella fy Ffrangeg yn ogystal â'm sgiliau trefnu. Ar ben hynny, drwy dderbyn cwynion gan gwsmeriaid, yr wyf wedi dysgu sut i ddelio â phroblemau ac wedi dod yn fwy amyneddgar. Ar y dechrau, roeddwn ofn gwneud cais i'r gystadleuaeth am fy mod yn meddwl efallai nad yw fy stori yn ddigon diddorol. Fodd bynnag, byddwn yn annog pob myfyriwr i wneud yr un peth gan ei fod yn ffordd wych o ddod i adnabod myfyrwyr o adrannau eraill, eu profiadau a chael gwybod am swyddi gwag. Yn ogystal, roeddwn yn gallu talu am fy holl offer traethawd hir gyda gwobr ariannol y gystadleuaeth. Felly, mae'n ffordd dda i ariannu eich prosiectau ymchwil neu gynlluniau teithio posibl hefyd.

Betsan Ellis-Williams, 3edd flwyddyn BSc Daeryddiaeth

Yr Ail Orau yn Ail-fyw'r Profiad 2014

Profiad Gwaith: Athrawes wirfoddol yn Ysgol Gynradd ACJ, Cape Town, De Affrica

Trefnais y lleoliad hwn drwy'r sefydliad 'Global Vision International', ac roedd angen cyfweiliad byr dros y ffôn gydag un o'r rheolwyr prosiect yn Ne Affrica er mwyn sicrhau fy lle. Bûm yn gweithio am bythefnos yn dysgu Saesneg, Mathemateg, Chwaraeon ac agweddau o Ddaeryddiaeth. Gwnes i gynnal sesiynau ar ôl ysgol hwyllog gyda gwirfoddolwr arall hefyd. Mae'r cyllid ar gyfer yr ysgol yn gyfyngedig iawn, felly, mae'r diffyg staff yn golygu bod rhaid dysgu dosbarth o hyd at 60 o blant drwy eu rhannu i mewn i grwpiau.



Mae'r profiad hwn wedi cael effaith fawr ar fy llwybr gyrfa, ac yr wyf yn sicr y byddwn wrth fy modd yn gwneud mwy o deithio ar ôl y brifysgol. Mae yna hefyd lawer o gyfleoedd gwaith gyda chwmnïau daeryddol megis GVI, fel cydlynnydd y prosiect. Mae hefyd wedi helpu gyda fy newisiadau academaidd wrth feddwl am beth i'w wneud ar gyfer fy nhraethawd hir yn fy nhrydedd flwyddyn. Mae bellach yn amlwg i mi fod gen i fwy o ddi-ddordeb mewn daeryddiaeth ddynol, yn enwedig mewn themâu megis diwylliant, iaith a'r berthynas rhwng pobl, lle a natur.

Byswn yn annog myfyrwyr eraill i wneud ychydig o wirfoddoli. Nid profiad gwaith yn unig ydyw, ond mae'n brofiad bywyd hanfodol a oedd wedi fy helpu i ennill hyder ac i gael agwedd gwell ar fywyd.

Angharad Evans, un o raddedigion 2014 BSc Daeryddiaeth

Cyrhaeddodd Rownd Derfynol Ail-fyw'r Profiad 2014

Profiad gwaith: arsylwadau dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Drenewydd ac Ysgol Gynradd Sant Mihangel, Kerry

Er bod fy mhrofiad gwaith yn ymddangos yn eithaf syml, yn mynd 'yn ôl i'r ysgol' am ychydig wythnosau, roedd yn werthfawr iawn i mi gan ei fod yn cadarnhau fy nyheadau gyrfa a rhoi syniad go iawn o'r hyn y byddai'r yrfa yn golygu i mi. Mae'r profiad hwn yn sicr wedi newid fy meddwl am fod yn athrawes. Cyn y profiad hwn, roeddwn ond wedi gweld yr ysgol, addysgu a gwersi o safbwynt disgybl. Fodd bynnag, bu'r cyfle hwn yn amhrisiadwy o ran dangos i mi yn union beth yw bod yn athrawes go iawn ac mae wedi gwneud fi hyd yn oed yn fwy cyffrous am fod yn athrawes yn y dyfodol.

Ar ben hynny, ar ôl y cyfnod o brofiad gwaith, cefais y wybodaeth a'r hyder i siarad am faterion sy'n ymwneud ag ysgolion yn fy nghyfweliad am le ar gwrs Dysgu TAR Daeryddiaeth Uwchradd. Cafodd le i mi ar y cwrs ac un cam yn agosach at fy ngyrfa ddelfrydol - gyrfa fel athrawes Daeryddiaeth.



Y 3 uchaf yn y gystadleuaeth gyda'r beirniaid. Chwith i'r Dde: Siân Furlong-Davies, Pennaeth Gwasanaethau Gyrfaoedd (beirniad); Alun Jones, Prif Weithredwr Menter a Busnes (beirniad); Neil Glasser, cyfarwyddwr yr Athrofa (beirniad); Daniel Pietras, Daeryddiaeth (Enillydd); Maciej Blasiak, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a Betsan Ellis-Williams, Daeryddiaeth (Cil-wobr)



Cystadleuwyr y rownd derfynol gyda'r beirniaid. Rhos gefn chwith i'r dde: Maciej Blasiak, Gwleidyddiaeth Ryngwladol (Cil-wobr); Alun Jones, Prif Weithredwr Menter a Busnes (beirniad); Neil Glasser (beirniad); Mary Wright, Gwleidyddiaeth Ryngwladol (y rownd derfynol); Angharad Evans, Daeryddiaeth (rownd derfynol). Rhos flaen chwith i'r dde: Siân Furlong-Davies, Pennaeth Gwasanaethau Gyrfaoedd (beirniad); Lauren Barrat, Hanes (rownd derfynol); Betsan Ellis-Williams, Daeryddiaeth (Cil-wobr); a, Daniel Pietras, Daeryddiaeth (Enillydd)



Cyfathrebu Daearyddiaeth

Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianeg

Roedd myfyrwyr o ADGD yn brysur unwaith eto gydag Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianeg 2014. Themâu'r digwyddiad tri diwrnod eleni oedd 'Ymchwilio'r Dyfodol', a ddenodd dros 1,300 o ddisgyblion ysgol, athrawon ac aelodau o'r cyhoedd o bob cwr o Gymru a thu hwnt. O ganlyniad i waith caled a chreadigrwydd y myfyrwyr, llwyddodd ADGD i gael chwe stondin gan gyfrannu at ei wneud y 'Ffair Wyddoniaeth' orau eto'. Addysgodd yr arddangosfeydd Daearyddiaeth ryngweithiol yr ymwelwyr am newid hinsawdd, llif rhewlif, llifogydd, peryglon folcanig a daearyddiaeth. Yn fyr, ac yn ôl un o'r sylwadau a dderbyniwyd o un o'r ymwelwyr; "Roedd yn wych".

Cafodd yr Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianeg ei threfnu gan dim Ehangu Cyfranogiad y Brifysgol a chyfraniad ADGD ei gydlynu gan Drs Cerys Jones a Carina Fearnley (a hoffai ddiolch i'r dwsinau o wirfoddolwyr ADGD am eu brwdfrydedd a'u gwaith caled!).



Llysgennad Daearyddiaeth

Gareth Williams

Un o raddedigion Daearyddiaeth Ffisegol a Myfyriwr Ôl-raddedig cyfredol

Royal Geographical Society
with IBG
Advancing geography and geographical learning

Fel Llysgennad y Royal Geographical Society (RGS), fy rôl yw ceisio annog disgyblion ysgolion uwchradd i ymgymryd â Daearyddiaeth fel lefel A neu fel gradd israddedig. Rwy'n angerddol am ddaearyddiaeth, yn enwedig y gwyddorau Cwaternaid, ac rwy'n ceisio cyfleu hyn yn ystod ymweliadau ysgol. Un elfen 'rwyf yn canolbwyntio arno yw'r cyfleoedd gwaith maes anhygoel, e.e. Seland Newydd, a gweld y byd.

Yn ystod trydedd flwyddyn fy ngradd yn ADGD, cefais y fraint o fynd i Ysgol Penweddig, Aberystwyth, i siarad â disgyblion Blwyddyn 13 am y posibilrwydd o wneud gradd daearyddiaeth yn y brifysgol. Er fy mod ofn y syniad o siarad o flaen grŵp, ceisiais ei wneud yn sesiwn diddorol gyda lluniau hardd o fy nheithiau ac amlinellu'r cyfleoedd gyrfa i ddaearyddwyr. Hefyd, gwnes y sesiwn yn un rhyngweithiol wrth wneud y disgyblion yn rheolwyr risg trychineb a'u hannog i feddwl am sut y byddent yn delio â tsunamis, llosgfynyddoedd a daearyddiaeth (diolch i Dr Carina Fearnley am yr ysbrydoliaeth oddi wrth ei modiwl 'Geohazards' yn yr ail flwyddyn!). Enillodd y grŵp gorau pensiliau "I Love Geography". Roedd y sesiwn yn ddiddorol a hwyl a chefais adborth cadarnhaol gan yr athro - ac roedd dosbarthu pensiliau "I Love Geography" yn help! Roedd hwn yn brofiad gwych, gan ei fod nid yn unig wedi rhoi i mi'r profiad o wneud cyflwyniad y tu allan i'r brifysgol, ond wedi fy helpu i ennill hyder wrth siarad yn gyhoeddus.



Bodio ym Montenegro

Magdalena Chmura

Blwyddyn 1af BSc Daeryddiaeth Ffisegol

Hitch-heicio, yn sicr, yw'r ffordd orau o deithio - mae'r anturiaethau a allai ddigwydd yn ystod taith o'r fath fel arfer yn well na'r rhai mewn llyfrau neu ffilmiau. Yr haf hwn bodiais fy ffordd ar draws y Balcanau gyda fy ffrind, a Montenegro oedd un o'r gwledydd mwyaf anhygoel yr ydym erioed wedi'i ymweld!

Dechreuom yn nhref Kotor ar lannau Bae anhygoel o Kotor, lle mae pentrefi wedi eu hadeiladu i mewn i'r clogwyni calchfaen. Fe wnaethom barhau ein taith drwy fodio i'r hen fynachlog uniongred Ostrog, sydd wedi'i hadeiladu yn y graig solet ar ben y mynydd. Treuliyd noson yno gyda phererinion a ddaeth i weddio ger bedd Sant Basil o Ostrog, sylfaenydd y fynachlog. Gwnaeth Ostrog argraff fawr iawn ar y ddwy ohonom.

Y diwrnod wedyn cyrhaeddodd Barc Cenedlaethol Durmitor lle gwnaethom gysgu mewn sied bren yn y mynyddoedd. Mae Mynyddoedd Durmitor yn un o'r rhanbarthau llai adnabyddus o Ewrop, ond maent yn anhygoel o hardd - copaon mawreddog, creigiog wedi'u gorchuddio yn rhannol â mwsogl a niwl. Gwnaethom ddringo un o'r mynyddoedd - Savin Kuk (2313 m). Roeddwn yn hynod o flinedig, gan fod y mynydd yn wirioneddol serth... ond roedd yr olygfa o ben y mynydd werth yr ymdrech! Mae un peth syfrdanol am Montenegro, sef bod mynyddoedd ym mhobman, ac mae gan bob ffordd leoliadau trawiadol; maent yn troelli drwy ddyffrynnoedd ac o gwmpas y bryniau gan edrych yn debyg iawn i afonydd asffalt.

Ar ôl ymweld â Durmitor cawsom lifft i'r Tara Canyon, sef y Canyon afon ddyfnaf yn Ewrop. Roedd yn anhygoel; dim ond eistedd ar ymyl pont ac edrych ar yr afon wyrddlas yn llifo islaw. Fodd bynnag, yr oedd yn frawychus hefyd oherwydd bod y bont yn crynu bob tro pasiodd car. Ar ôl ymlacio ar Tara cawsom lifft i'r Piva Lake, lle gwnaethom gysgu ym mynachlog Ostrog unwaith eto. Daeth ein taith i ben ar yr arfordir, lle treuliyd ychydig ddyddiau hyfryd yn gwneud ffrindiau newydd, gwranddo ar eu straeon o aur cudd yn y mynyddoedd (yn wir, roedd un o'n ffrindiau newydd yn gweithio i filiwydd o Rwsia sydd yn chwilio am 'aur cudd'!). Dyna'n union pam yr wyf wrth fy modd yn bodio cymaint - bydd yn mynd â chi i'r manau mwyaf annisgwyl ac yn rhoi'r profiadau mwyaf unigryw i chi!



Traethodau estynedig

Bob blwyddyn mae gofyn i'n myfyrwyr sydd ar eu trydedd flwyddyn gynhyrchu traethawd estynedig ar astudiaeth annibynnol gyda chymorth aelod o staff sy'n arbenigo yn eu maes ymchwil. Yma, mae rhai o'n myfyrwyr sydd ar eu blwyddyn olaf yn sôn am eu hanturiaethau ar waith maes.

Concro Rhewlif Noir

Nathaniel Baurley

3edd flwyddyn BSc Daearyddiaeth

Yn ddiweddar, treuliais bron i 4 wythnos o fy haf yn ne-ddwyrain yr Alpau Ffrengig, gan wneud ymchwil ar gyfer fy nhraethawd hir israddedig. Canolbwyntia fy ymchwil ar rewlif sydd wedi'i orchuddio â malurion, sef Rhewlif Noir, a'r effaith mae'r malurion yn eu cael ar faint o doddi oedd yn digwydd ar yr wyneb.

Roedd hyn yn cynnwys drilio polion oren llachar i mewn i wyneb y rhewlif (ar ôl i ni ddod o hyd i ran o'r rhewlif lle mae'r gorchudd malurion yn ddigon tenau!) a gwneud mesuriadau dyddiol o faint o doddi a ddigwyddodd. Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu cerdded at y rhewlif bob dydd. Doedd hyn ddim yn hawdd gan yr oedd dros dir garw iawn ac yn cymryd awr a hanner i fi a fy mhartner ymchwil (Joe) i gerdded yno... yna awr arall i fynd yn ôl i lawr!

Roedd werth yr ymdrech, fodd bynnag, ar gyfer y golygfeydd godidog a'r tywydd hyfryd, a wnaeth y daith ychydig yn haws! Mae hefyd yn helpu fy mod wedi cael data da iawn!!!

Ar y cyfan, roedd yn daith ffantastig ac yn brofiad bythgofiadwy. Mae wedi rhoi i mi'r awydd i deithio ac ymchwilio mwy a byddwn wrth fy modd yn gwneud mwy o bethau fel hyn yn y dyfodol os caf i'r cyfle. Rwyf hefyd yn annog yn gryf i bobl eraill i wneud yr un fath - jyst edrychwch ar y lluniau!



Gwobr W J Edwards

Roedd gan Bill Edwards (1944-2007) ddiddordeb angerddol yng Nghymru – yn enwedig mewn cymuned, gwleidyddiaeth a chyfranogiad. Roedd yn ymddiddori'n fawr hefyd yn y cysylltiadau rhwng Daearyddiaeth a disgyblaethau eraill megis Celf, Hanes a Llenyddiaeth, yn ogystal â'r gwyddorau cymdeithasol a chorfforol. Fel Cyfarwyddwr Dysgu mewn Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeare yn Aberystwyth ac fel Deon y Celfyddydau, gwnaeth gyfraniad mawr i wella profiad y myfyrwyr yn Aberystwyth.

Surf Señoritas: Rhyw a'r Corff ym myd Syrffio Laura Truelove, 3^{edd} flwyddyn BSc Daearyddiaeth



Llun: Iestyn Hughes

Gyda chymorth ariannol gwobr WJ Edward, treuliais yr haf yn cynnal ymchwil ar gyfer fy nhraethawd hir, o'r enw "A study of gender and 'the body' in surfing: the negotiations of being female in the Welsh surfscene".

Penderfynais i ganolbwyntio ar y ddau brif ardaloedd syrffio. Yr ardal gyntaf yw Aberystwyth, gan fy mod yn rhan o Glwb Syrffio'r Brifysgol, ac sy'n cynrychioli diwylliant syrffio canolbarth Cymru. Yr ail ardal astudio, sy'n cynrychioli de Cymru yw Llangynydd, ger Abertawe, ar benrhyn Gŵyr, gan fy mod yn aelod o'i grŵp syrffio i fenywod - 'Surf Senioritas'. Mae canolbwyntio ar ddau le yn unig yn golygu y gallwn eu hymchwilio mewn manylder, gan ennill gwybodaeth gyfoethocach na phe bawn i'n cwmpasu Cymru gyfan.

Cynhaliais gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda syrffwyr yn y ddwy ardal astudiaeth achos, ochr yn ochr â dyddiadur personol gwnaeth fy ngalluogi i dynnu ar safbwynt hunan-ethnograffig i fy nhraethawd hir. Fodd bynnag, roedd dod o hyd i syrffwyr ar gyfer cyfweiliadau yn heriol ar adegau - oherwydd nad oedd unrhyw donau!

Un o fy uchafbwyntiau o'r ymchwil oedd cynnal cyfweiliad yn eistedd ar draeth y de yn edrych dros y Trap. Yr wyf yn teimlo bod y lleoliad hwn yn wych er mwyn sbarduno ysbrydoliaeth ac yn caniatáu fy nghyfwelai i dynnu sylw at rannau o'r syrffwedd (*surfscene*) siaradodd am yn ei gyfweiliad.

Gwnaeth un o fy nghyfweliadau fy rhoi mewn cysylltiad â Linda Sharp,

y syrffwr enwog o'r 1970au sydd yn byw yn Aberafan ac sy'n cael ei hystyried yn arwres syrffio ym Mhrydain. Cyfeirir ati'n aml fel "the only girl in the curl", ac yr wyf yn teimlo y bydd ei chyfweiliad yn gyfraniad sylweddol at fy ymchwil. Fel un o'r merched cyntaf i syrffio yn y DG, bydd yn rhoi persbectif newydd ar sut y mae derbyn menywod i fyd syrffio wedi newid ar hyd y blynyddoedd, yng Nghymru a Phrydain.

O'r cyfweiliadau a grwpiau ffocws rydw i wedi darganfod bod materion rhyw mewn syrffio yn fater cymhleth iawn, ynghyd ag ystod o faterion cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ehangach. Yn Aberystwyth, bodola materion cymdeithasol pellach a meddylfryd tiriogaethol lleol / estron, sy'n cael ei gymhlethu gan bresenoldeb myfyrwyr sy'n syrffio, gan adlewyrchu syniadau o wrywod ac absenoldeb benywaidd-dra o'r syrffwedd. Er bod syrffio yn dal i gael ei ddominyddu gan ddynion i raddau helaeth, mae ei ymddangosiad yn niwiliant bob dydd wedi 'ffemineiddio' y byd syrffio, gan adlewyrchu'r llenyddiaeth academiaidd sy'n cyfeirio ato fel "trydydd-don" neu ffeministaeth "llechwraidd" (Heywood, 2008). Mae rhywioli menywod ym myd syrffio wedi ehangu'r bwlc rhwng dynion a menywod mewn syrffio, gan gefnogi syniadau am ddeuoliaeth rhyw a pholaredd, er bod fy nghyfweliadau yn dangos bod y rhan fwyaf o syrffwyr yng Nghymru yn teimlo nad yw'r ochr fasnachol hon o syrffio yn perthyn i realiti syrffio dyfroedd oer Prydain.

Heywood, L. (2008). Third-wave feminism, the global economy, and women's surfing: Sport as stealth feminism in girls' surf culture. *Next wave cultures: Feminism, subcultures, activism*, 63-82.



Er mwyn anrhydeddu cariad Bill at Gymru a'i ymrwymiad i gefnogi datblygiad academiaidd a phersonol ein myfyrwyr, cynlluniwyd y wobwr hon i gefnogi traethawd hir neu waith prosiect Anrhydedd Cyfun sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o unrhyw agwedd ar yr amgylchedd ffisegol ac / neu ddynol yng Nghymru.

Llygredd Porthladd

Sarah Hughes, 3^{edd} flwyddyn BSc Daeryddiaeth Ffisegol



Dyfrffordd Aberdaugleddau

Mae Dyfrffordd Aberdaugleddau yn aber sydd wedi'i lleoli o fewn Parc Cenedlaethol Sir Benfro ac mae'n werthfawr yn fasnachol ac yn amgylcheddol. Cynyddodd gweithgarwch diwydiannol morol o fewn yr aber yn sylweddol yn yr 1960au, ochr yn ochr â datblygu purfeydd olew ar y tir, a bu ehangu cysylltiedig mewn seilwaith yn yr ardal.

Rhoddodd gwobr WJ Edwards gymorth ariannol ar gyfer fy ymchwil i'm traethawd hir ar llygredd metel trwm o Copr (Cu), Sinc (Zn), Plwm (Pb) a Chadmiwm (Cd) o fewn porthladd masnachol Dyfrffordd Aberdaugleddau trwy ddadansoddi macro-algâu a gwaddodion morydol.

Dewisais ugain o safleoedd ar hyd yr aber, a chasglwyd 20 o samplau gwaddodion a samplau macro-algâu ym mhob safle. Casglais 5 sampl rheolydd o safle yn Aberaeron.

Mae fy nadansoddiad cychwynnol wedi nodi bod crynodiadau o fetelau trwm o fewn samplau Aberdaugleddau yn sylweddol uwch na'r rhai o'r safle rheolydd yn Aberaeron. Plwm oedd y prif halogydd, gyda chrynodiadau uchaf o fewn samplau gwaddod hyd at 8,000 gwaith mwy na'r samplau rheoli. Trefn yr halogiad metel trwm oedd Pb > Cu > Zn > Cd o fewn y gwaddodion a macro-algâu ill dau.

Bydd dadansoddiad pellach o'r canlyniadau yn cael ei wneud i benderfynu ar lefel y llygredd trwy gydol yr aber, gan fesur y goblygiadau posibl ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd pobl.

Mae'r 'Milford Haven Waterway Environmental Surveillance Group' (MHWESG) a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am gopïau o'r astudiaeth hon pan fydd wedi'i chwblhau.

Priddoedd Trwm

Sam Adamson, 3^{edd} flwyddyn BSc Daeryddiaeth Ffisegol

Galluogodd gwobr WJ Edwards i mi samplu priddoedd o bedwar maes saethu yn ne Cymru i asesu difrifoldeb a dosbarthiad llygredd metelau trwm yn y pridd o ganlyniad i fewnbwn uniongyrchol a bwriadol haels (*shot*) i mewn i briddoedd. O'r pedwar maes saethu, roedd dau yn feysydd saethu dryll, ac roedd dau yn feysydd saethu reiffi awyr (Quarry Hunters HFT a Treetops Sporting Range). Mae rheolau llym ar berchnogaeth gwn yn y Deyrnas Unedig yn golygu bod saethu reiffi awyr yn dod yn ffurf boblogaidd iawn o ymarfer saethu. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r llenyddiaeth ynghylch llygredd saethu yn seiliedig ar feysydd saethu dryll a reiffi yn America a gwledydd Llychlyn. Mae hyn wedi arwain at absenoldeb llwyr o lenyddiaeth yn ymwneud â saethu reiffi aer. Ceisia fy nhraethawd hir fynd i'r afael â'r gwagle hwn o waith academiaidd mewn maes sy'n arbennig o berthnasol i'r Deyrnas Unedig.

Yn ogystal ag asesu llygriad metel trwm o fewn pridd (Plwm, Copr a Sinc), dadansoddwyd cyfansoddiad cemegol pelenni reiffi awyr hefyd, nodwyd lefel y llygredd metel trwm ar yr wyneb (o feysydd dryll a reiffi aer) sy'n cael ei symud yn fertigol i lawr y proffil pridd, ac aseswyd y canlyniadau amgylcheddol posibl sy'n deillio o'r llygredd pridd hwn.

Roedd yn amlwg yn gynnar yn ystod y dadansoddiad bod crynodiadau copr a sinc ym mhob maes yn agos at grynodiadau cefndir. Fodd bynnag, mae crynodiadau Plwm ym mhob maes yn uwch na'r trothwyon a ddefnyddir i benderfynu meysydd lle mae angen astudiaeth bellach o ganlyniad i risg o niwed ecolegol a risg i iechyd dynol.



Mae 'Quarry' yn ardal o'r maes a ddefnyddir yn aml ar gyfer lleoli'r targedau



Maes 'Treetops' yw'r maes sero ym maes saethu reiffi awyr Treetops



Maes 'Quarry' yw'r maes sero ym maes saethu reiffi aer y 'Quarry Hunters'



'Taff 2' yw'r strwythur concriid lle byddai'r gweithredwr trap yn eistedd. Byddai ef / hi yn gweithredu peiriant sy'n taflu'r colommenod clai lle mae fy mag, a byddai'r saethwyr yn saethu at y targedau o ochr arall y bloc concriid

Gwobrau a Chymdeithasau

Bob blwyddyn dyfarnir amrywiaeth o wobrau i ariannu teithio a dysgu er mwyn i'n myfyrwyr allu gael profiad o fywyd yn y DG a thu hwnt. Drwy gyfwrng y rhain a'r amryfal gymdeithasau a digwyddiadau o fewn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a ledled Prifysgol Aberystwyth, mae digonedd o gyfleoedd i wneud ffrindiau newydd ac i ddatblygu sgiliau gwerthfawr.

Cystadleuaeth Ffotograff a Ffilm 2014

Ysbrydoli, Diddori, Bywiogi, Darganfod

Dyma'r hyn yr ydym ni fel adran yn ei gredu yw hanfod Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Eleni ar gyfer cystadleuaeth ffotograffig yr Adran roedden ni am i'n myfyrwyr ddangos a rhoi gwybod i ni beth mae'r pethau hyn yn ei olygu iddynt hwy yn nhermau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, naill ai drwy ddefnyddio ffotograff neu, yn newydd ar gyfer 2014, trwy greu ffilm fer. Roedd pedwar categori:

Ysbrydoli – Delwedd sy'n eich ysbrydoli yn eich astudiaethau, a byddai'n ysbrydoli eraill i astudio Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

Diddori – Dangos pobl yn cysylltu'n uniongyrchol â Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, neu ddelweddau a fydd yn diddori pobl.

Bywiogi – Delweddau cyffrous sy'n dangos pa mor anhygoel yw Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear!

Darganfod – Dod o hyd i rhywbeth gwahanol, rhywbeth nad oes neb arall wedi ei ddarganfod, neu delwedd sy'n cyfleu'r plaser o ddarganfod rhywbeth.

Gallai'r delweddau fod o deithiau maes a wnaed fel rhan o'u hastudiaethau neu anturiaethau o unrhyw le o amgylch y byd! Gallai'r ffilmiau gynnwys un neu fwy o'r themâu uchod.

Dyfarnwyd y gwobrau fel a ganlyn:

Ffotograff Cyffredinol Gorau - Tocyn Amazon £50

Ffilm Gyffredinol Orau - Tocyn Amazon £50

Ffotograff gorau ym mhob categori - Tocyn Amazon £30

Magdalena Chmura - Enillydd Darganfod

Lleoliad y ffotograff: Blagaj Tekija (yr unig fynachlog 'Dervish' yn Ewrop), Bosnia a Herzegovina



Bethany Foskett – Enillydd Bywiogi

Lleoliad y ffotograff: Rhanbarth Dachstein Salzkammergut, Awstria



Bethany Foskett – Enillydd Ysbrydoli

Lleoliad y ffotograff: Llyn halen tanddaearol Salzwelten, Hallstatt, Awstria



Mel Jones - Enillydd Diddori


Lleoliad y ffotograff: cofeb newyn yn Nulyn, Iwerddon



Rob Green - Enillydd Cyffredinol

Lleoliad y ffotograff: Derwentwater, Ardal y Llynnoedd

Mae'r llun yn portreadu tirwedd drawiadol yn Ardal y Llynnoedd - o'r mynyddoedd tyrog i lynnoedd sy'n tywynnu - sy'n darparu maes chwarae llawn ysbrydoliaeth i unrhyw Ddaearyddwr.



Jamie Howe - Enillydd y Ffilm

Teitl y Ffilm: 'Aberystwyth University - Environmental Earth Science 3rd Year Field Trip - Ireland'

Y Gwyddonwyr Daear Amgylcheddol sydd yn eu trydedd flwyddyn ar daith maes olaf eu cwrs; taith i Iwerddon i asesu technegau mwyngloddio'r gorffennol a'r presennol a'u heffeithiau ar yr amgylchedd. Gwylwch y ffilm ar [YouTube](#).



Gwobrau Teithio

Bob blwyddyn mae Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn cynnig hyd at 13 o wobrau teithio gwerth hyd at £400 yr un i fyfyrwyr sy'n awyddus i weld y byd. Dyma hanes rhai o'r rhai a lwyddodd i ddod 'nôl!

Charlotte Rennie – BA Daearyddiaeth Ddynol, astudiodd De-orllewin yr Unol Daleithiau

Treuliais 4 wythnos yn cwblhau taith oedd yn cychwyn ac yn gorffen yn LA. Gan amlaf, arhosais mewn ardaloedd gwledig lle mi wnes y mwyaf o'r tirweddau anhygoel, megis Parciau Cenedlaethol 'Yosemite' ac 'Arches' a Llyn Powell. Yn y dinasoedd, cymrais ran mewn cymysgedd eclectic o weithgareddau: partio yn Vegas, darganfod bwydydd anhygoel yn San Francisco, archwilio'r sîn gerddoriaeth Mecsicanaidd yn Los Angeles a beicio ar hyd arfordir San Diego.



Golygfeydd wrth gerdded wrth iddi wawrio yn Bryce Canyon

Galluogodd fy nheithiau yn ystod yr haf hwn i mi gwblhau ymchwil archifol ar hanes lleol o wrthwynebiad gwleidyddol, sy'n sail i fy nhraethawd hir. Gwnaeth y deunyddiau a'r amgylchedd hwyluso profiad gwirioneddol anhygoel. Gyda hanes gwleidyddol cyfoethog ac amrywiol o ran hawliau dynol, mae De Orllewin yr Unol Daleithiau yn lleoliad delfrydol i astudio'r pwnc hwn ac i fod mewn amgylchedd sydd wedi profi gymaint o brotestio. Gwnaeth yr her newydd o deithio fy nghaniatáu i ddefnyddio sgiliau nad wyf wedi'u defnyddio o'r blaen, gan fy ngwthio i gynyddu fy nealltwriaeth a'ngwerthfawrogiad am amrywiaeth byd-eang.

Diolch yn fawr i Brifysgol Aberystwyth a'r cynllun Teithio Gareth Thomas am eu haelioni anhygoel gan fy ngalluogi i brofi rhywbeth gwirioneddol fythgofiadwy.



Arfordir hardd y 'Big Sur', sy'n gartref i nifer fawr o forloi eliffant

Edward Tonkin – BSc Daearyddiaeth, trechodd yr Alpau

Defnyddiais Wobr Teithio Gareth Thomas i ddysgu sgiliau newydd a hefyd i ariannu fy ymchwil traethawd hir. Aeth Mike Stuart, fy nghynorthwydd ymchwil, a minnau ar gwrs Alpaidd 'Conville' yn Chamonix yn rhanbarth Rhône-Alpes yn ne-ddwyrain Ffrainc. Rhoddodd y cwrs hwn i mi dealltwriaeth sylfaenol o fynyddau Alpaidd, gan gynnwys sut i deithio ar hyd rhewlif a dringo Alpaidd.



Mike a minnau ar gopa Aiguille de la Glière, Chamonix

Gan ddefnyddio sgiliau o'r cwrs Conville, mi es ati i gynnal fy ymchwil traethawd hir israddedig yn y Swistir ar Rewlif y Morteratsch. Golyga hyn yr oedd rhaid i mi gael mynediad at y rhewlif, cerdded i fyny rhan ohono ac yna casglu samplau o fater organig o du mewn i dyllau Cryoconite. Y samplau hyn oedd fy nata ar gyfer fy nhraethawd hir, sydd â'r teitl 'Altitudinal Variation in Organic Matter within Cryoconite Holes on the Morteratsch Glacier, Switzerland'.



Disgyn un o'r ysgolion i'r Mer de Glace fel rhan o'r Cwrs Conville

Yn ogystal â chwblhau fy ymchwil traethawd hir, yr wyf yn gobeithio defnyddio fy mhrofiad dringo newydd o fewn Clwb Mynyddau'r Brifysgol. Rwyf hefyd yn gobeithio dychwelyd i'r Alpau y flwyddyn nesaf i ddysgu mwy a chymryd rhan mewn rhagor o fynyddau Alpaidd.

Meghan Edwards - BSc Daearyddiaeth, safodd ar do Affrica

Mae'r Adran Ddaearyddiaeth yn cynnig ysgoloriaeth deithio o £400, a bŵm yn ddiogel i ennill un o'r gwobrau hyn. Bu hyn yn gymorth mawr tuag at gostau fy nhaith dringo Kilimanjaro elusennol, wedi'i ddilyn gan wyliau unwaith-mewn-oes i Zanzibar Spice Island a safari 2-ddiwrnod. Kilimanjaro yw'r pwynt uchaf y gallwch ei gyrraedd heb offer technegol a systemau cynnal bywyd. Fel y cyfryw, mae'n her fawr sydd angen offer arbenigol a drud, megis dillad ac esgidiau, sydd yn amhosibl i'w prynu ar gyllideb myfyrwyr. Yn ychwanegol at y costau hyn, defnyddiais yr arian a roddwyd gan ADGD i dalu am fy mrechiadau, rhestr cit ac yswiriant teithio.

Dysgodd y ddringfa lawer i mi amdanaf i fy hun, a chynyddodd fy hyder i fynd allan i fy mlwyddyn mewn diwydiant gyda ffydd yn fy ngallu fy hun. Roedd cerdded trwy ystod o amgylcheddau yn anhygoel, ac i weld diwylliant hollol wahanol. Roeddwn wrth fy modd yn gweld y rhewlifoedd ac effaith twristiaeth ar y bobl leol. Roedd cadwraeth yn rhan enfawr o Barc Cenedlaethol Kili, gwnaeth i mi feddwl am sut y mae'n wahanol i'r DG. Yr oedd yn ddiadorol i ddysgu Swahili wrth ein tywyswyr, a phrofi sut mae'n teimlo i fod yn y grŵp ethnig lleiafrifol; gwnaeth i mi feddwl am sut mae eich hunaniaeth yn newid gan ddibynnu ar eich amgylchedd.



Gwyliau yn Zanzibar ar ôl dringo, ein hymwelid i Prison Island


Ar ôl dringo'r mynydd, aethom ar safari, ymweld ag ardaloedd diwylliannol Zanzibar, nofio gyda dolffiniaid gwyllt a chrwbanod môr, a chwrdd â chrwbanod enfawr.

Rwy'n erfyn arnoch i gyd i deithio cymaint ag y gallwch, oherwydd nid oes modd dysgu popeth o lyfrau! Gwnaf orffen gyda dyfyniad; 'Mae'r byd yn debyg i lyfr, ac mae'r rhai nad ydynt yn teithio yn darllen un tudalen yn unig.'

Diolch i ADGD am roi'r profiadau sydd wedi fy newid i - roedd yn gyfle unwaith-mewn-oes.



Diwrnod 2 uwchben y cymylau



Wedi cyrraedd y brig, sef to Affrica. Wedi blino'n lân ac yn sâl â salwch uchder, ond MOR falch o'r tîm cyfan



Diwrnod olaf - dathliad ôl-ddringo gyda'r tîm gyda Kili yn y cefndir

William Hingley - BSc Daeryddiaeth, ymchwiliodd i bolisi ynni niwclear

Cymerodd y Wobr Teithio ADGD mi i fannau cŵl a fy ngalluogi i gynnal ymchwil i'r gwahaniaethau rhwng polisi ynni niwclear y DG a Ffrainc, gan gynnwys: Llundain, Strasbwrg, Rhydychen, a thrwy Skype i Ganada!

Anelais at gyfweled cymaint o wneuthurwyr polisi, ymchwilyr ac adrannau cyfathrebu ag yr oedd modd er mwyn cael darlun dibynadwy o'r materion sy'n ymwneud â'r pwnc hwn. Nid yn unig y ces i gyfweled â rhai o arweinyddion y byd yn eu priod feysydd, ond ges i archwilio rhai o'r adrannau gwleidyddol mwyaf dylanwadol yn y byd - yn benodol, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Llundain, a Senedd Ewrop, Strasbwrg.

Gwnaeth y teithio unigol a chasglu data annibynnol gadarnhau fy nyheadau gyrfa a datblygais barch at ddadlau, yn enwedig o ran materion dadleuol o'r fath!



Cyfweled cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Hinsawdd, Chris Huhne - uchafbwynt pendant!



Y tu mewn i'r Senedd Ewropeaidd - dim sôn am UKIP...

Heather Bell - BSc Daeryddiaeth Ffisegol, astudiodd yn Stockholm

Yr haf hwn derbyniais Wobr Teithio Gareth Thomas, sef ysgoloriaeth ADGD oedd yn helpu gyda'r gost o deithio i'r Ysgol Haf 'Newid Hinsawdd, Economi a Chymdeithas yr Arctig' ac 'Adroddiad Gwydnwch Arctig' yn Stockholm, Sweden.

Drwy gydol fy ngradd 'rwyf wedi canolbwyntio ar wyddoniaeth begynol, gan gymryd y modiwlau 'Process Galciology', 'Arctic Marine Geology' (UNIS), 'Arctic Hydrology and Climate Change' (UNIS), a chwblhau traethawd estynedig sy'n seiliedig ar rewlifeg. Roeddwn hefyd yn ddigon ffodus i allu cymryd rhan yng nghynllun Erasmus i Svalbard yn 2013. Apeliodd yr ysgol haf hon ata i gan fy mod eisoes wedi astudio daeryddiaeth ffisegol yr Arctig ac roedd yma lwyfan i drafod yr economi a chymdeithas yr Arctig o dan effeithiau newid hinsawdd.

Darparodd yr ysgol haf i mi gyfle i ganolbwyntio ar wahanol agweddau ar newid yn hinsawdd yr Arctig; newidiadau yn sectorau economaidd llongau, twristiaeth, pysgodfeydd a defnydd a llywodraethiad olew a nwy. Rhoddodd arbenigwyr cipolwg ar y datblygiadau diweddar, a ffurfiwyd ein canlyniadau gan ddefnyddio offer amrywiol fel cynllunio gofodol morol, dangosyddion ac asesu gwytnwch (*resilience*). Ar ddiwedd yr wythnos cyflwynais i a fy ngrŵp ein canlyniadau i grŵp o arbenigwyr yn y 'Stockholm Resilience Centre'.

Mae'r Wobr Teithio Gareth Thomas wedi fy ngalluogi i fynd ar drywydd pwnc sy'n fy ymddiddori, ac wedi fy ysgogi i barhau i wneud MSc yn 2015!



Rhai o'r myfyrwyr a minnau (yr ail o'r dde yn y rhes gefn) y tu allan i'r 'Stockholm Resilience Centre'



Helo o GeogSoc!

Rydym yn un o'r cymdeithasau mwyaf ar y campws ac yn parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd llynedd yn flwyddyn lwyddiannus iawn...

Cawsom nifer o ddigwyddiadau gyrfaedd er mwyn rhoi syniad i ni o'r hyn sy'n ein disgwyl ar ôl ein hamser yma yn Aberystwyth. Daeth siaradwyr o 'Cyfoeth Naturiol Cymru' ac ymgynghorwyr amgylcheddol LDA Design i roi cipolwg ar y 'byd go iawn'. Ni fyddai'r rhain yn bosibl pe na bai gennym berthynas wych gyda staff adrannol; perthynas rydym yn gobeithio datblygu hyd yn oed yn fwy!

Y llynedd hefyd roedd gennym nifer o gyfleoedd newydd! Sefydlwyd gemau pêl-droed 5-bob-ochr wythnosol, yr ydym yn galw'n GeogFoc, yn ogystal â chofrestru tîm Daeryddiaeth i'r twrnament Rygbi 7 Bob Ochr yma yn Aberystwyth. Gwnaeth ein tîm, 'Geohazards', yn eithriadol o dda ar eu cynnig cyntaf, gan gollu yn y rownd derfynol o drwch blewyn. Ond byddwn yn ôl eleni yn gryfach nag erioed! Rydym hefyd wedi cynnal nifer o gwisiau i elusennau ac yn gobeithio parhau i godi arian eleni.



Tîm Rygbi 7 bob ochr GeogSoc. Llyn: Melissa Elizabeth Sarson

Cafwyd nifer o themâu gwych ar gyfer ein noson gymdeithasol wythnosol ar nos Fawrth, gan gynnwys teuluoedd, golff tafarn, o amgylch y byd a Ghostbusters. Rydym hefyd yn parhau â'n cystadleuaeth gyda'r gymdeithas Hanes gyda dwy noson gymdeithasol enfawr ar y cyd. Roedd gennym nifer o deithiau anhygoel gan gynnwys ein trip blynyddol i Borth Animalarium yn ogystal â phrynhawn hynod o flêr yn peledu paent (*paintballing*).

Ar y cyfan roedd yn flwyddyn anhygoel ac rydym wedi bod yn ceisio cadw i fyny â'r gwaith da eleni! Dyma sut mae'n mynd...

Rydym wedi cael dechrau prysur i semester un eleni, gyda llawer o nosweithiau cymdeithasol a thaith. Llwyddwyd i groesawu digon o wynebaw newydd i'r gymdeithas ac rydym wedi gweld rhai gwisgoedd ffansi gwych. Mae pob thema wedi dod ag amrywiaeth o wisgoedd; yr wythnos ddiwethaf daeth hyd yn oed Tomos y Tanc o gwmpas y dref gyda ni!

Mae'r gymdeithas wedi cadw'n brysur trwy GeogFoc a GeogJog (is-gymdeithasau pêl-droed a chwaraeon GeogSoc). Yn ddiweddar, chwaraeodd GeogFoc y darlithwyr mewn gêm gystadleuol. Mae'n anodd cyfaddef eich bod wedi colli, ond hoffem longyfarch ein darlithwyr ar ennill. Y sgôr terfynol oedd 2-1 i'r darlithwyr... ond rydym yn bendant angen ail gêm!

Mae GeogJog yn newydd i'r gymdeithas eleni ac mae'n cynnig rhywbeth i bawb. Mae'r grŵp yn dod at ei gilydd i chwarae chwaraeon gwahanol bob wythnos mewn amgylchedd hamddenol. Hyd yn hyn, rhoddwyd cynnig ar Rownderi, Kickball, Rygbi (mwdlyd iawn!) ac rydym wedi bod yn nofio hyd yn oed! Dyma gyfle i gael hwyl gyda ffrindiau hen a newydd!

Os hoffech gymryd rhan, ymunwch â'n tudalen Facebook (Aber GeogSoc 2013-14) a dilynwch ni ar twitter (@GeogSocAber).



Cinio diwedd blwyddyn GeogSoc, Craig Glais
Llyn: Eddie Whitehead Photography

WE ARE GEOGSOC - ONE OF ABER UNI'S BIGGEST SOCIETIES! WE'RE THE FIRST PORT OF CALL BETWEEN THE DEPARTMENT AND STUDENTS. WE MEET EVERY TUESDAY FOR SOCIALS, AS WELL AS DOING TRIPS LOCALLY AND ACROSS WALES AND OFFERING TONS OF EDUCATIONAL HELP. NO MATTER WHAT YOU STUDY, WE'LL WELCOME YOU WITH OPEN ARMS!

Geog Soc

MEET THE COMMITTEE

 FIONA CAMPBELL PRESIDENT	 DAN COLSON VICE PRESIDENT	 JOSH BAILEY SECRETARY
 PETE CHENNELLS SOCIAL SEC	 JACK HEMSWORTH SOCIAL SEC	 CARLY JACKSON EDUCATION OFFICER
 CAITLIN CUSACK TREASURER	 HANNAH POLL PUBLICITY OFFICER	 SAM LLOYD TRIPS & SAFETY

JOIN US EVERY TUESDAY NIGHT FOR ONE OF ABER'S BIGGEST SOCIALS!
FIND US ON FACEBOOK AS ABER GEOGSOC 14/15, AND FOLLOW OUR TWITTER @GEOGSOCABER

Newyddion Ôl-raddedig

O astudiaeth ôl-raddedig i brofiadau graddedigion, unwaith y byddwch wedi ennill eich gradd gyntaf mewn Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, cewch opsiynau a chyfleoedd di-ri!

Enw: Heather Griffiths

Gradd yn ADGD, Prifysgol Aberystwyth: BSc Daearyddiaeth (F800)
Gradd Dosbarth Graddio: Anrhydedd Dosbarth Cyntaf
Blwyddyn Graddio: 2014
Swydd bresennol: Ymgynghorydd Graddedig o fewn Grŵp Amgylchedd BWB Consulting



Yn ystod fy amser yn ADGD, nid oedd gen i swydd neu yrfa 'delfrydol'. Roedd fy nyheadau bob amser yn fwy agored: i wneud defnydd o fy ngradd Daearyddiaeth o fewn rôl yn y sector amgylcheddol. Ers graddio ym mis Gorffennaf 2014, yr wyf wedi dechrau gweithio yn BWB Consulting, sy'n ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol. Rwyf yn y Grŵp Amgylcheddol, sy'n bennaf yn darparu cyngor amgylcheddol ac atebion peirianegol er mwyn sicrhau bod tir yn addas ar gyfer ei ddatblygu.

Er gwaetha'r ffaith 'mod i ond wedi gweithio yn y sector am gyfnod byr, gallaf werthfawrogi gwerth radd Daearyddiaeth a'i sgiliau trosglwyddadwy. Ar hyn o bryd, mae llawer o fy amser yn cael ei dreulio'n ysgrifennu adroddiadau, gan dynnu ar ymchwil annibynnol, cyflwyno data a dadansoddi canlyniadau. Mae ymweliadau safle yn rhoi cyfle i weld a deall prosesau amgylcheddol ymhellach, yn debyg iawn i waith maes. Rwyf hefyd yn aml yn defnyddio GIS a llawer o becynnau meddalwedd sy'n benodol i ddiwydiant.

Wedi gwneud cais am ystod o interniaethau a swyddi i raddedigion, mae nifer o wersi yr wyf wedi eu dysgu. Mae crynhoi'r rhain yn anodd; yn lle hynny, hoffwn ail-ddweud dau ddarn o gyngor a gefais yn ystod fy amser yn Aberystwyth. Yn gyntaf, mae profiad gwaith yn hynod o bwysig. Er bod profiad perthnasol i'r diwydiant yn ddefnyddiol a dylid eu nodi ar ffurflenni cais, efallai y bydd cwmnïau yn gwerthfawrogi sgiliau a ddaw o sefyllfaoedd sy'n ymddangos yn amherthnasol. O ganlyniad, mae trafod ystod o brofiadau, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar y rhai sy'n ymddangos i fod y rhai mwyaf perthnasol, yn allweddol. Yn ail, peidiwch â bod ofn i gyflwyno ceisiadau am swyddi neu interniaeth lle nad oes swydd wedi'i hysbysebu. Gall sefydliadau gynnig cyfleoedd sy'n ychwanegol at y rhai a hysbysebir neu gadw dy fanylion ar gofnod ar gyfer y dyfodol.



Wrth wneud cais am swyddi yn y sector amgylcheddol gwelais dwy wefan i fod yn arbennig o ddefnyddiol, sef: <http://www.environmentjob.co.uk/jobs> – mae gan y safle hwn ddewisiadau chwilio defnyddiol ac mae'n bosibl i fireinio eich meini prawf yn ôl lleoliad, lefel mynediad ac ati. <http://www.changeagents.org.uk/> – safle a anelir yn benodol at ddarparu lleoliadau i raddedigion.

Enw: Sara Louise Jones

Gradd yn ADGD, Prifysgol Aberystwyth: BSc Daearyddiaeth Ffisegol (F840)
Gradd Dosbarth Graddio: Anrhydedd Dosbarth Cyntaf
Blwyddyn Graddio: 2013
Swydd bresennol: Ymgynghorydd Amgylcheddol yn CELSA Steel UK



Ar ôl treulio tair blynedd fendigedig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio fy hoff bwnc o fewn tref glan môr hardd, roeddwn yn sicr fy mod eisiau gweithio o fewn y sector amgylcheddol er mwyn gweithredu'r holl wybodaeth academaidd oeddwn wedi ennill. Er mwyn cyflawni hyn, roeddwn i'n gwybod y byddai profiad gwaith o fewn y maes hwn yn hanfodol. Ar ôl graddio, cefais interniaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan gyd-weithio ag 'Environmental Practices Advisers' er mwyn asesu agweddau ac effeithiau amgylcheddol i sefydliad er mwyn gweithredu System Reoli Amgylcheddol. Roedd hwn yn gyfle gwyb gan fy mod yn ddigon ffodus i ymweld â phlatai mawreddog yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr, wrth ennill profiad amhrisiadwy o reolaeth amgylcheddol mewn sefydliad mawr.

Yn dilyn fy interniaeth, anfonais fy CV i asiantaeth recriwtio leol, a arweiniodd fi at fy swydd bresennol. Rwy'n gweithio ar hyn o bryd fel Ymgynghorydd Amgylcheddol yn CELSA Steel UK, sy'n rhan o grŵp Celsa. Yn CELSA Steel UK, rydym yn cynhyrchu tua 1 miliwn tunnell o gynnyrch dur gorffenedig ar gyfer prosiectau adeiladu mawrion, megis y Gemau Olympaidd yn Llundain a Crossrail. Mae'r broses yn cynnwys ailgylchu dur sgrap mewn Ffwrnais Arc Trydan. Fel yr Ymgynghorydd Amgylcheddol, fi sy'n ymgymryd â'r monitro ac adrodd ar bob un o'r paramedrau amgylcheddol i sicrhau cydymffurfiaid yn erbyn terfyn allyriadau a ddiffinnir dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Rwyf hefyd yn cynnal y System Rheolaeth Amgylcheddol i safon ISO 14001, cynnal teithiau amgylcheddol ac yn cyfrannu at gyfarfodydd amgylcheddol i olrhain perfformiad amgylcheddol y cwmni.

Roedd fy ngradd sylfaen yn amhrisiadwy o ran materion amgylcheddol a phwysigrwydd rheoli amgylcheddol. Canolbwyntiodd fy nhraethawd hir ar etifeddiaeth mwynoddi copr o ran tynged ac effaith gynyddol elfennau hybrin yn yr amgylchedd. Gwnes i hefyd arbenigo mewn geocemeg amgylcheddol a newid palaeoamgylcheddol yn fy nhrydedd flwyddyn. Er y ces i werthfawrogiad gwyb am yr angen i reoli defnydd ynni ac allyriadau diwydiannol, roedd gen i lawer i'w ddysgu am ddeddfwriaeth a thrwyddedau amgylcheddol o fewn y diwydiant. Mae'r newid o brifysgol i'r gweithle yn heriol ac yr wyf yn parhau i ddysgu. Rwyf wedi cyflawni cymaint ers dechrau gweithio yn y sector amgylcheddol a bydd fy moddhad swydd byth yn dod i ben. Fy nghyngor i unrhyw un sydd am ddechrau gyrfu mewn rheoli amgylcheddol fyddai i arbenigo yn y drydedd flwyddyn, i gael syniad clir o'r swydd yr ydych ei eisiau, dangos eich brwdfrydedd am bwysigrwydd rheoli amgylcheddol a bod yn uchelgeisiol - nid oes dim yn rhy fawr neu'n frawychus, hyd yn oed gweithio mewn gwaith dur enfawr!



Archwilio Ghana –

Amber Tarry

Myfyriwr ôl-raddedig presennol ac un o raddedigion BA Daearyddiaeth Ddynol

Yn union cyn cwblhau fy ngradd BA Daearyddiaeth Ddynol yn Aberystwyth yn 2014, cefais wybod fy mod wedi bod yn ddigon lwcus i gael fy newis i dderbyn Gwobr Teithio Gareth Thomas. Nod y wobwr yw rhoi i fyfyrwyr y cyfle i archwilio'r byd, wrth greu profiadau newydd a fydd yn arwain at ddatblygiad personol ac academaidd. Roeddwn am deithio i Ghana, yn bennaf oherwydd bod fy nhad-cu yn dod o Ghana, ond dydw i erioed wedi profi bywyd yn Affrica fy hun ac roeddwn yn gwybod fawr ddim am ddiwylliant Ghana cyn fy nhaith. Ar ben hynny, fel Daearyddwraig Ddynol, roeddwn i'n teimlo bod gan Ghana lawer i'w gynnig o ran archwilio sut mae rhai o'r theorïau o fy astudiaethau academaidd yn digwydd yn y byd go iawn, fel syniadau yn ymwneud â chrefydd yn Affrica.

Tra yn Ghana, treuliais y rhan fwyaf o fy amser yn gwirfoddoli mewn dau sefydliad gwahanol. Bob bore bûm yn dysgu Saesneg i ddosbarth o oddeutu deg ar hugain o ferched mewn ysgol bentref lleol - ysgol a chafodd ei rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr. Yn y prynhawn roeddwn i'n gweithio mewn cartref plant amddifad lleol, gan chwarae gyda ac yn helpu i ofalu am blant ifanc Ghana nad oedd ag unrhyw deulu eu hunain. Yn fy amser hamdden, archwiliais i rai o'r prif safleoedd diwylliannol yn Ghana - megis y farchnad ddiwylliannol yn y brifddinas, Accra. Treuliais hefyd lawer o amser yn siarad â'r bobl leol a dysgu am eu bywydau - roedd pobl Ghana yn gyfeillgar dros ben, ac roedd gan bawb hanesion roeddwn nhw'n falch iawn i rannu.

Trwy gymryd rhan mewn rhaglen gwirfoddoli yn Ghana, yr wyf wedi ennill llawer o fuddion academaidd a phersonol. Fel y soniwyd yn gynharach, yn academaidd y mae wedi fy ngalluogi i weld sut mae'r theorïau a ddysgais mewn darlithoedd yn cael eu cymhwyso i fywyd go iawn; er enghraifft, mae rhan fawr o boblogaeth Ghana yn Fwslimiaid. Fel myfyriwr israddedig, astudiais y modiwl 'World Regional Islam' ac roeddwn yn gallu siarad â nifer o wahanol Fwslimiaid am y ffordd y maent yn dehongli ac yn ymarfer eu crefydd, a chymharu hynny â'r llenyddiaeth academaidd yr wyf wedi darllen o'r blaen.

Ni all eiriau ddisgrifio'r manteision personol a gefais o fy amser yn Ghana; dyma'r profiad mwyaf anhygoel yn fy mywyd! Mae wedi agor fy llygaid i ffordd hollol wahanol o fyw. Er gwaethaf bod yn ymwybodol o'r safon ac ansawdd bywyd yn Affrica cyn fy nhaith, gallaf yn awr ddweud nad oeddwn yn deall yn union sut brofiad ydoedd nes i mi ei brofi i mi fy hun. Cwrddais â nifer o bobl hyfryd y byddaf byth yn eu anghofio.



Tynnwyd y llun hwn ar fy niwrnod cyntaf yn gweithio yn y cartref plant amddifad. Newidiais fy nghewyn gyntaf a rhoi fy mhotel gyntaf i fabi ar fy niwrnod cyntaf – tipyn o gamp!

ADGD yn lansio MSc newydd mewn Dynameg a Rheolaeth Systemau Afonol

Mae'r MSc mewn 'River System Dynamics and Management' yn gwrs newydd sy'n rhoi i fyfyrwyr gyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o hydroleg a geomorffoleg afonol. Bydd yn cael ei addysgu gan arbenigwyr o'r radd flaenaf a fydd yn ymgysylltu â gwaith ymchwil arloesol a dulliau cyfoes o reoli afon.

Mae'r cwrs yn cynnwys ystod amrywiol o fodiwlau sy'n anelu at arfogi myfyrwyr gyda gwybodaeth o ddulliau a thechnegau rheoli afon cyfoes. Bydd myfyrwyr yn: nodi achosion o ansefydlogrwydd erydu a gwaddodi mewn dalgylchoedd afonydd a'r dulliau y gellir eu cymhwyso i reoli'r problemau hyn; datblygu arbenigedd mewn rheoli a thrin GIS mawr a setiau data synhwyro o bell; cymhwyso meddalwedd modelu rhifiadol o safon diwydiant i efelychu dynameg system afonydd; gwerthuso'r camau rheoli sy'n ofynnol i gyflawni egwyddorion rheoli dŵr ar raddfa draenio-basn fel yr amlinellir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; dysgu sut i ymestyn cofnodion llifogydd ac, ennill profiad mewn casglu data yn y maes.

Bydd yr MSc newydd yn arfogi myfyrwyr â dealltwriaeth damcaniaethol ac ymarferol o hydroleg, geomorffoleg afonol, ansawdd dŵr, modelu rhifiadol, rheoli afonydd cyfoes, a GIS a synhwyro o bell. Bydd ysgiliau trosglwyddadwy ac arbenigol y byddant yn datblygu yn agor drysau i ystod o gyfleoedd gyrfaol. Yn benodol, mae'r cwrs yn arfogi myfyrwyr â sgiliau i ddilyn gyrfa mewn ymgynghoriaeth amgylcheddol, yswiriant neu reoli'r amgylchedd llywodraethol neu, fel arall, yn darparu myfyrwyr gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer ymchwil doethurol yn y dyfodol.

*Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â
postgraduate-iges@aber.ac.uk*

Llwyddiannau mewn Cynadleddau

Joanna Matthews, ymgeisydd PhD

Enillodd Joanna Matthews y wobwr am y papur gorau a gyflwynwyd yn Nigwyddiad Hydrolegwyr Gyrfa Gynnar Peter Wolf (wedi'i redeg gan Gymdeithas Hydrolegol Prydain) ym mis Mehefin 2014. Teitl ei phapur oedd "Investigating the trigger mechanisms for suspended sediment "red events" in the Brecon Beacons".

Robert MacKinnon, ymgeisydd PhD

Ym mis Medi 2014, cyhoeddwyd Robert MacKinnon fel derbynnydd cyntaf Gwobr Ymchwilydd Newydd Mike Stammers. Enillodd Rob y wobwr am ei bapur oedd â'r teitl "The Maintenance of Flows as Threatening and Threatened with the Water-world: Hydraulic Modelling, Tool-power, and the Becoming of Power-tools' yng nghynhadledd Canolfan Hanes Morwrol a Phorthladdoedd 2014 yn Lerpwl.

Llongyfarchiadau!



Cynhadledd Newid Hinsawdd

Gwnaeth myfyriwr ac un o raddedigion diweddar ADGD sicrhau cyllid oddi wrth y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymelwa ar Loerennau Meteorolegol (EUMETSAT) er mwyn cyflwyno eu gwaith yn Symposiwm yr Hinsawdd Blynyddol 2014, a gynhaliwyd yn Darmstadt, yr Almaen.

Matt North, sy'n un o raddedigion Daearyddiaeth ac sydd bellach yn gynorthwydd technegol yn yr Adran, a'r myfyriwr ERASMUS Salim Lamine, sicrhodd cyllid fel 'gwyddonwyr gyrfa gynnar' i fynychu'r gynhadledd.

Prif ffocws y gynhadledd oedd y gwaith o ddatblygu gwybodaeth ar yr hinsawdd yn seiliedig ar wyddoniaeth, a sut y gall y technolegau diweddaraf gael eu defnyddio i fonitro i ba raddau y mae'r hinsawdd yn newid.

Rhoddodd Matt a Salim gyflwyniadau ar eu gwaith ymchwil - mewn cynhadledd o bron i 500 o gyfranogwyr o 50 o wledydd ledled y byd! Ar ben hynny, cafwyd y cyfle i wrando ar ddarlithoedd gan unigolion allweddol ym myd newid hinsawdd, gan gynnwys Michel JP Jarraud (Ysgrifennydd Cyffredinol y 'World Meteorological Organization'), Thomas Stocker (Cadeirydd y Gweithgor Un o'r 'Intergovernmental Panel on Climate Change'), a David Carlson (Cyfarwyddwr y 'World Climate Research Programme').

Newyddion Adrannol

Fel un o adrannau Daearyddiaeth fwyaf y DG, mae gennym ni ddigon o newyddion i'w hadrodd, a dyma ddim ond rhai uchafbwyntiau dethol o'n llwyddiannau addysgu ac ymchwil – o'r ddarlithfa i benawdau newyddion.



Gall y Gorffennol Ateb ein Dyfodol...

Ym mis Medi 2014, cafodd Drs Sarah Davies, Cerys Jones a Marie-Jeanne Royer y fraint o gymryd rhan yn nigwyddiadau lansiad fersiynau ar-lein digidol o ddyddiaduron Mr William Bulkeley. Gwahoddodd y digwyddiad dau ddiwrnod plant ysgol a'r cyhoedd i fwynhau dramatiddiad o'r dyddiaduron a chwaraeir gan actorion o 'Cwmni Pendraw', i gyfeiliant cerddoriaeth o'r cyfnod. Ar ôl y perfformiad, cyflwynodd Sarah a Cerys sgwrs am ymchwil ar dywydd a hinsawdd hanesyddol gan Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru (C3W), gan gynnwys y defnydd o ddyddiaduron, cyfchoedd coed a chregyn i ail-greu tywydd y gorffennol.

Dyddiaduron Mr Bulkeley yw un o ffynonellau pwysigaf Cymru o ran nodi digwyddiadau tywydd y gorffennol gan eu bod yn gymharol gynnar ac yn cwmpasu cyfnod diddorol o amodau eithaf amrywiol yn y ddeunawfed ganrif. Ystyrir gaeaf 1740 fel yr oeraf ar gofnod ac mae'n digwydd ar ôl cyfnod o gynhesrwydd yn ystod y 1730au. Golygaf ffordd gyson cofnododd Mr Bulkeley y tywydd yn ddyddiol yn ei ddyddiaduron, ynghyd â'r ffaith yr oedd yn teithio'n bur anaml, bod gennym gofnod dibynadwy a pharhaus - dywedir nad oes yr un dydd yn mynd heb i Mr Bulkeley gofnodi cyfeiriad y gwynn!

Mae edrych ar dywydd y gorffennol trwy ddyddiaduron yn gymhleth, ond yn werth chweil gan ei fod yn caniatáu i chi roi'r digwyddiad hwnnw mewn cyd-destun. Nawr bod y trawsgrifiad ar gael am ddim ar y we, mae'n gwneud y broses hon yn llawer haws... ac yn gyflymach. Nid yn unig yr ydym yn dysgu am ba dywydd a gafwyd, ond gallwn hefyd gael gwybod beth oedd canfyddiad pobl o'r digwyddiad hwnnw, pa effeithiau a gafodd ar yr ardal leol a pha atebion cafodd eu rhoi ar waith. Wrth gyfuno data procsi amrywiol, mae'n ein galluogi i atgyfnerthu ein gwybodaeth am ddigwyddiadau tywydd a'r ymatebion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â hwy. Fodd bynnag, mae yna un cwestiwn sy'n codi'n aml gan bobl sy'n gweithio gydag archifau ysgrifenedig, sef: beth fydd archifau'r dyfodol - pwy fydd yn cymryd lle Mr Bulkeley?

Mae delweddau a trawsgrifiadau llawn o'r dyddiaduron ar gael yma: bulkeleydiaries.bangor.ac.uk/

Cynhyrchodd Vince (swyddog C3W) ffilm fer o'r digwyddiad sydd bellach ar gael ar-lein <http://vimeo.com/107412330>.



Climate Change Consortium of Wales
Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru

Llun: Vince Jones/C3W

Chwyddwydr ar Ymchwil

20fed Pen-blwydd Hapus i'r Ganolfan Rewlifeg!

Dathlodd y Ganolfan Rhewlifeg yn ADGD ei ugeinfed pen-blwydd ym mis Medi 2014. Roedd holl aelodau gwreiddiol y Ganolfan yn bresennol: Julian Dowdeswell, y cyfarwyddwr cyntaf ac yn awr Cyfarwyddwr y 'Scott Polar Research Institute' yng Nghaergrawnt; Martin Siegert, sydd erbyn hyn yn Gyn-gyfarwyddwr y Sefydliad Grantham yng Ngholeg Imperial; Giles Brown, Prifysgol Bryste; Robert Whittington (wedi ymddeol) ac, wrth gwrs, cyfarwyddwr presennol y Ganolfan sef Bryn Hubbard. Cychwynnodd y dathliadau gyda thaith gerdded i fyny Cadair Idris, wedi'i ddilyn gan ginio yng Nghanolfan y Celfyddydau a fynychwyd gan 50 o bobl, yn cynnwys staff, myfyrwyr PhD a Meistr presennol a blaenorol. Rhoddodd Julian a Martin ill dau araith ar ôl-cinio am eu hamser yn Aberystwyth, a sut y mae Rhewlifeg wedi datblygu i fod yn ddisgyblaeth boblogaidd.



O'r Hen i'r Newydd...

Prosiect GLOBAL-RURAL

Mae'r Athro Michael Woods a Dr Jesse Heley wedi dechrau prosiect newydd pwysig a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Archwilia GLOBAL-RURAL i sut y mae globaleiddio yn effeithio ar ardaloedd gwledig ac ymatebion cymunedau gwledig, yn cwmpasu ystod o faterion o fasnach a mudo i ymatebion i newid hinsawdd a diogelwch bwyd. Bydd y prosiect 5 mlynedd yn edrych ar astudiaethau achos yn Awstralia, Brasil, Canada, Tsieina, Iwerddon, Seland Newydd, Sweden, Tanzania a Chymru, yn ogystal ag astudiaeth fanwl o 'globaleiddio bob dydd' yn y Drenewydd, Cymru. I wybod mwy am yr ymchwil, ewch i blog y prosiect, <http://globalruralproject.wordpress.com>, neu dilynwch @globalrural ar Twitter.

Sgan Laser o'r Gysgodfa ar Prom Aberystwyth

Gwnaeth y Grŵp Ymchwil Arsylwi Daear a Deinameg Ecosystemau'r penawdau gyda'u sgan laser 3D o'r gysgodfa ar Prom Aberystwyth, sy'n dangos y difrod a achoswyd gan stormydd Ionawr 2014.

Newyddion BBC Cymru

Derbyniodd yr Athro Neil Glasser, yr Athro Michael Hambrey a Dr John Smellie (cymrawd er anrhydedd ADGD) sylw yn y cyfryngau o Newyddion BBC Cymru am eu cyfraniad i bapur a gyhoeddwyd yn 'Nature Climate Change'. Mae eu gwaith ymchwil yn astudio newidiadau mewn rhewlifoedd yn ystod y 10,000 o flynyddoedd diwethaf o amgylch Penrhyn yr Antarctig.



Dywedodd yr Athro Glasser fod y data o golofnau iâ o rewlif ar Ynys James Ross yn dangos y "bydd yn dod yn llawer llai [dros y 200 mlynedd nesaf] nag ar unrhyw adeg yn ystod y 10,000 o flynyddoedd diwethaf."

BBC Radio Wales

Cyfrannodd yr Athro John Grattan a Dr Carina Fearnley i raglen 'Science Café' BBC Radio Wales. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar wyddoniaeth llosgfynyddoedd: beth sy'n digwydd yn ystod ffrwydrad a pha mor dda y mae systemau rhagdybio echdoriadau? Trafodwyd hefyd y tirweddau folcanig hynafol Cymreig.




Countryfile

Ymddangosodd Dr Bill Perkins a'i myfyriwr ôl-raddedig Emma ar Countryfile BBC One ar y rhaglen 'Cambrian Mountains - Wales' best kept secret'. Yn y bennod hon, trafododd Bill ac Emma fanteision iechyd tybiedig y dŵr ffynnon sydd yn Llanwrtyd.



Sgan laser 3D o'r gysgodfa ar prom Aberystwyth



Diwrnod ym Mywyd...

Dr Tom Holt Enillydd Gwobr Dysgu Rhagorol 2014



Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr
Student Led Teaching Awards



Beth yw eich teitl?

Darlithydd mewn Daearyddiaeth Ffisegol.

Beth yw eich maes arbenigedd?

Yr wyf yn rhewlifegwr sy'n defnyddio data a thechnegau synhwyro o bell i asesu newidiadau yn y cryosffer, gan ganolbwyntio ar esblygiad strwythurol a deinamig llenni iâ, silffoedd iâ a rhewlifoedd annibynnol yn Antarctica, Ynys Las, ac amgylcheddau pegynol eraill.

Rhowch flas o'ch swydd?

Cyffrous, amrywiol, heriol, ac yn aml yn brysur! Rydw i wedi fy amgylchynu gan gydweithwyr a ffrindiau gwych, ac rwy'n cael dysgu rhai myfyrwyr ffantastig. Mae'n hynod o werth chweil eu gweld yn symud ymlaen o'u blwyddyn gyntaf hyd at raddio, ac yna allan i'r byd go iawn! Mae'n broses ddwyffordd, yn ogystal. Byddaf yn gadael pob sesiwn wedi dysgu rhywbeth newydd gan y myfyrwyr, ffaith rwy'n siŵr nad yw llawer ohonynt yn ei sylweddoli! Rwy'n ceisio cadw fy narlithoedd, gweithdai, aseiniadau, ac ati yn amrywiol gan ei fod yn fy nghadw i a'r myfyrwyr yn effro.

Beth yw eich diwrnod arferol?

Byddaf yn treulio ychydig o amser yn paratoi neu gyflwyno deunydd addysgu, yn enwedig yn ystod y tymor, ond mae'n amrywio o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos. Mae rhai dyddiau yn llawn o ddarlithoedd, dosbarthiadau ymarferol a sesiynau tiwtorial. Mae eraill ychydig yn llai prysur sy'n rhyddhau amser ar gyfer ymchwil, ysgrifennu papurau, adolygu llawysgrifau a chynigion grantiau, er enghraifft.

Beth sy'n hwyl?

Mae dosbarthiadau gwaith maes yn arbennig o hwyl. Mae'n elfen mor allweddol i unrhyw radd daearyddiaeth, ac mae'n sicr yn uchafbwynt ar gyfer staff a myfyrwyr!

Beth sy'n heriol?

Mae'r llwyth gwaith yn heriol - nid y math o waith, ond maint y llwyth gwaith. Nid yw'n stopio. Ond dyna ran annatod o'r swydd, ac rwyf fwyaf cynhyrchiol pan mae gen i lawer o bethau ar fy agenda (ac mae egwylliau rheolaidd i gael pameidiau o de yn helpu!).

Beth yw eich cyngor i fyfyrwyr?

Gofynnwch gwestiynau. Gwrandewch ar atebion. Penderfynwch dros eich hun. I gael gwybod mwy, mae cyfweiliad llawn Tom ar gael ym: <http://rockheadsciences.com/holt-glaciologist/> neu dilynwch @tom_holt

Dr Tom Holt yn derbyn ei wobwr



Ar gyfer y Silff Lyfrau:




Erthygl yn *Nature*

Gwnaeth Dr Andy Mitchell helpu samplu ac adnabod bywyd microbaidd mewn llyn danrewlifol yn yr Antarctig. Bu Dr Mitchell a chydweithwyr ar y prosiect WISSARD (www.wissard.org) yn ymchwilio ffurfiau ar fywyd microbaidd yn llyn Danrewlifol Whillans ar ôl prosiect drilio llwyddiannus yn 2013, pan ddrilliodd gwyddonwyr drwy 800 o fetrau o iâ rhewlifol i gyrraedd y llyn, a chasglu'r samplau dŵr cyntaf erioed o amgylchedd o'r fath. Mae eu gwaith ymchwil wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar yn 'Nature' mewn papur â'r teitl *A microbial ecosystem beneath the West Antarctic Ice Sheet*.

Marine Tephrochronology

Golygwyd gan *W. E. N. Austin, P. M. Abbott, S. M. Davies, N. J. G. Pearce a S. Wastegård*




Mae'r Cyhoeddiad Arbennig hwn gan y 'Geological Society' yn cynnwys erthyglau sy'n cyflwyno datblygiadau diweddar mewn astudiaethau tefrogronoleg morol ac yn amlinellu technegau arloesol o ran olion bysedd geocemegol, stratigraffeg a dealltwriaeth o brosesau dyddodiadol. Yn ogystal â chael ei gydolygu gan yr **Athro Nick Pearce**, mae'n cynnwys erthyglau a ysgrifennwyd gan yr Athro Nick Pearce a'r ymgeisydd PhD **Catherine Martin-Jones**.

Mae'n adnodd pwysig i'r gymuned palaeocefnoreg ar adeg pan bod tefrogronoleg morol yn cael ei gydnabod yn fwy eang. Bydd hefyd yn adnodd gwerthfawr i gymuned ehangach o lawer o wyddonwyr Daear, gwyddonwyr yr hinsawdd ac archeolegwyr, yn enwedig wrth

dynnu sylw at rôl astudiaethau teffra mewn stratigraffeg a chydberthyniadau rhanbarthol / all-ranbarthol, yn ogystal ag yn olrhain hanes hirdymor folcanigrwydd rhanbarthol a byd-eang o'r archif ar waelod y môr.

10 reasons why Geomorphology is important

Stephen Tooth a Heather Viles



Er gwaethaf pwysigrwydd amlwg geomorffoleg, mae'n debyg bod 'geomorffoleg' a 'geomorffolegydd' yn dermau nas deallir. Yn rhannol, mae hyn oherwydd nad yw geomorffoleg yn bodoli fel disgyblaeth prifysgol annibynnol, ond yn un sydd a'i wreiddiau mewn adrannau Daeryddiaeth, Daeareg neu Gwyddor Daear. Nod y llyfryn hwn, a ysgrifennwyd ar y cyd gan **Dr Stephen Tooth** ar gyfer Cymdeithas Geomorffoleg Prydain, yw cyflwyno'r term 'geomorffoleg' i gynulleidfa leyg ac i ddarlunio detholiad o egwyddorion sylfaenol a chreiddiol y ddisgyblaeth. Cyflawnir hyn trwy dynnu sylw at ddeg pwynt allweddol y dylai unrhyw ddinesydd wybod am geomorffoleg. Nid dyma'r unig bwyntiau

pwysig ond ein bwriad yw dangos pam y dylid ystyried geomorffoleg fel disgyblaeth eclecticig ond cydlynol, bywiog, blaengar a pherthnasol.

Mae'r cyfieithiad yn cael ei baratoi gan **Dr Hywel Griffiths**, a mawr obeithir y bydd fersiwn Gymraeg o'r llyfryn hwn, sef '10 rheswm pam mae Geomorffoleg yn bwysig', ar gael yn fuan.

Staff Newydd

Mae **Catherine Cottrell** yn ddarlithydd daeryddiaeth ddynol newydd ei phenodi yn ADGD. Graddiodd Catherine gyda BSc mewn Busnes a Rheoli Busnes Rhyngwladol o Florida State University yn 2005. Enillodd ei MA (2006) mewn Cysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Miami (FL).

Yn 2013, enillodd ei PhD o Brifysgol South Carolina o dan oruchwyliaeth Dr Caroline Nagel. Ariannwyd ymchwil ei PhD, oedd â'r teitl "Youth Citizenship, Civic Education, and Spaces of Belonging in Tallinn, Estonia," gan grant Gwella Ymchwil Doethurol y 'US National Science Foundation' a chymrodoriaeth 'US Department of Education Foreign Language Area Studies'. Tra'n gweithio tuag at ei PhD gweithiodd Catherine fel cynorthwydd ymchwil graddedig a dysgodd ar fodiwlau israddedig.

Roedd ei swydd flaenorol ym Mhrifysgol De Carolina fel darlithydd.




BA Daearyddiaeth
BSc Human Geography
BSc Environmental Earth Science
BSc Environmental Science
BSc Geography
BSc Physical Geography

 www.facebook.com/AUIGES

 @AU_DGES

O Amgylch y Byd mewn 360 Credyd



D**A**RGANFOD

D**I**DDORI

BYWIO**G**I

YSBRY**D**OLI

*ADGD yw'r adran Ddaearyddiaeth
orau yng Nghymru ac yn y 10 uchaf
yn y DG o ran grym ymchwil*

RESEARCH EXCELLENCE FRAMEWORK 2014

Ymholiadau Derbyn Israddedigion:
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear,
Prifysgol Aberystwyth, Adeilad Llandinam, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DB, Cymru

Ffôn: (0)1970 622596
Ffacs: (0)1970 622659
E-bost: iges-admissions@aber.ac.uk